# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER, 01.09.10 AM 7.15 YR HWYR YNG NGHANOLFAN WAUNFAWR, WAUNFAWR

**Presennol –** Cynghorwyr Gwilym O Williams (Cadeirydd)
Edgar Owen
Terry Parry
Cadi Jones
Tegid Pritchard
Clive James
Bryn Jones
Shoned Griffith (Clerc)

**1 Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2 Ymddiheuriadau –** Y Cyng PP, Cyng AJones, Cyng EW, Cyng LB

**3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4 Derbyn Cofnodion 05.07.10**

Y Cyng T Prichard yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng EO yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion cyfarfod 05.07.10**

Cywiro baw cwm i cwn yn rhydd yn ardal Bro Waun – Clerc i holi am ddiweddariad. Cyng GOW yn ymwybodol fod Cyngor Gwynedd wedi bod o amgylch.
Canllawiau Cynllunio – Clerc wedi derbyn pecyn gan Cyngor Gwynedd.
Coed Pant Gwyn – Cyng GOW wedi bod yn holi Cyngor Gwynedd.

**6 Adroddiadau**

**a. Lloches Bws**
Wedi penderfynu peintio'r lloches bws ger yr hen bost ar ol gwyliau'r haf.

**b. Pwyllgor y Fynwent ac Eiddo**
Angen newid y dehongliad o drigolion y gymuned i " Trigolion y gymuned yw rhai sydd wedi byw o fewn **ffin** y Cyngor Cymuned ers 3 blynedd".
Gofynwyd y cwestiwn beth am drigolion yr hen ward. Archwilwyd i mewn i'r cwestiwn gan y Cyng C James a dyma beth adrodddwyd:-

“Rwyf wedi archwilio'r Gorchymyn yn 1984 sydd wedi sefydlu Cyngor Cymuned Y Waunfawr fel y mae. Roedd gan trigolion gweiddill Ward Castellmai, Cyngor Plwyf Waunfawr ac eithriwyd o ffiniau Cyngor Cymuned newydd Y Waunfawr yr hawl cael eu claddu yn y Mynwent ym Metws Garmon am gyfnod o 25 mlynedd ar ol y diwrnod penodedig. Daeth y cyfnod i ben yn 2009”.

**c. Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr cyhoeddus ger 1 Dol Erddi – wedi cael ei dorri.

**Ch. Gerddi Bach**

Holiaduron yn cael eu dosbarthu. Cyng BJ yn mynd i helpu hefo rhannu holiaduron Caeathro. Cyng CJames a'r Cyng BJ i drefnu drwy'i gilydd.

## 7 Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| | Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cais |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

### b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd

| Dyddiad Cofrestrwyd | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Statws y Cai |
|---|---|---|---|---|
| 30.06.10 | Addasu'r adeilad allanol presennol i fod yn rhan o'r ty ynghyd a chodi estyniadau | Llys Meredydd Waunfawr | C10A/0361/26/LL | Wedi cymerad |
| 06.07.10 | Cais i godi uchder y to | Hafod Oleu Waunfawr | C10A/0355/26/LL | Wedi cymerad |
| 06.05.10 | Codi 2 gysgodfan pren er mwyn diogelu odynau, creu rhodfeydd newydd a mannau caled | Coed y Ci, Donen Las, Waunfawr | C10A/0251/26/L | Wedi cymerad |
| 09.06.10 | Estyniad llawr cyntaf a estyniad unllawr i'r cefn | Tremallt Caeathro | C10A/0312/26/LL | Wedi cymerad |
| 06.07.10 | Dymchwel estyniad un llawr presennol i ochr y ty ac adeiladu estyniad un llawr mwy o faint. Trosi adeilad allanol presennol yn 'Granny Annex' | Tai Isaf Waunfawr | C10A/0222/26/LL | Wedi cymerad |

## 8 Gohebiaeth i'w drafod

Cyngor Gwynedd – Cysgodfannau bysiau pentref Waunfawr – Graffiti
Cynhadledd Partneriaeth Tai Gwynedd 2010
Llywodraeth y Cynulliad – Adroddiad blynyddol 2009/10
Gwyl Gerdd Dant Glannau Menai – Lansiad Swyddogol Tlws Gwyl Cerdd Dant Glannau Menai

Cyngor Gwynedd – Arwyddion Cyflymder Rhyngweithiol
Cyngor Cymuned Llanrug – noson dathlu a lansio Map tordio Llwybrau Llanrug a Cwm y Glo

## 9. Materion Ariannol

### 9.1 Arian wedi ei dalu allan

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Awst | £260.00 |
| B Jones | £36.00 |
| B Owen | £36.00 |
| H Jones | £36.00 |

### 9.2 Arian a dderbyniwyd

| | |
|---|---|
| Ffi Claddu | £95.00 |
| Ffi Claddu | £400.00 |
| Ffi Claddu | £95.00 |
| Ffi Claddu | £105.00 |

### 9.3 Anfonebau i'w talu

| | |
|---|---|
| G R Services | £400.00 |
| J D Roberts | £55.50 |
| Cyflog Clerc Medi | £260.00 |

## 10 Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

Nos Lun, 11ain o Fedi, 2010 am **7.15** yr hwyr yng Nghanolfan Waunfawr.

## 11 Materion Aelodau.

**Y Cyng EO** – Llys y Waun – Tai Fforddiadwy ar gyfer pobl lleol gael eu prynu? Am gysylltu a Chyngor Gwynedd am fwy o wybodaeth.
Cyfarfod yn Caeathro – i drafod y llwybr cerdded rhwng y pentref a'r siop angen cadarnhad o bwy oedd wedi galw'r cyfarfod – cadarnhawyd mae'r Cyng GOW oedd wedi galw'r cyfarfod.
**Y Cyng TP** –Dim.
**Y Cyng BJ** - Coed wrth y Golgolofn angen adroddiad cyflwr arnynt. Cyng GOW yn mynd i gysylltu a swyddog Coed Cyngor Gwynedd i ymweld a'r safle. Cyng GOW i gadarnhau enw'r swyddog a'r clerc ar gyfer ysgrifennu atynt hefyd. Cynnigwyd gan y Cyng CJames ac eilwyd gan y Cyng EO i Is-Bwyllgor Eiddo a Fynwent i drafod yr adroddiad ac adrodd yn ol i'r cyfarfod llawn nesaf o unrhyw gostau a.y.y.b.
**Y Cyng TPritchard** – Aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu i ofyn os yn bosibl cloi y cae aml dywydd tu cefn i'r Ganolfan am oddeutu 10 o'r gloch bob nos oherwydd fod plant ifanc yn ymgynyll yno. Gan nad yw yn eiddo i'r Cyngor Cymuned gofynwyd i aelodau'r Pwyllgor y Ganolfan i drafod ymhellach.
**Y Cyng CJones** - Dim.
**Y Cyng GOW** – Angen llyfrau'r fynwent, lle yn mynd yn brin yno. Aelodau'r pwyllgor Eiddo a Fynwent i ymwled a'r fynwent er mwyn asesu'r sefyllfa.
**Y Cyng CJames** – Nodi y dylid trafod materion yn ymwneud a Eiddo a Fynwent o dan y pwynt ar yr Agenda a dim fel mater Aelodau unigol.